Pa mor wyrdd yw Eglwys Annibynnol Minny Street?

Yn ystod 2009-2010 rhannwyd Holiadur Amgylcheddol ymysg aelodau Eglwys Annibynnol Minny Street. Seiliwyd yr Holiadur ar ddeunydd a gyflwynwyd ym Mhecyn Amgylcheddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Derbyniwyd 61 ymateb i'r holiadur; cafwyd ymatebion gan aelodau unigol, ieuenctid sydd heb fod yn gyflawn aelodau, Swyddogion, Cylchoedd a hyfforddwyr. Ystod oedran, swyddogaeth a gweithgarwch da! Ceisiwyd sicrhau bod unrhyw sylw a wnaethpwyd ddwywaith neu fwy yn cael sylw yn yr adroddiad isod (nodir nifer y sylwadau mewn cromfachau).

****

Addoli: dyma brif ffocws y bywyd Cristnogol, ac mae bywyd a chenhadaeth Eglwys Minny Street yn ffrydio oddi wrtho. Amrywiol oedd yr ymatebion am y nifer o weithiau y mae materion amgylcheddol yn rhan o addoliad yr eglwys: ambell waith (8); mewn gwasanaethau arbennig yn unig (13) ac yn fynych (22). Teimlwyd bod yr eglwys, mewn gweddi, yn moli Duw'r Creawdwr, yn diolch i Dduw am y rhodd o'r greadigaeth, ac yn edifarhau am y niwed a wneir i'r amgylchedd. Nodwyd gan nifer bod y sylweddoliad hwn yn rhan ganolog o Deithiau Cerdded Minny Street. Cynigiwyd bod angen:

- defnyddio adeg y cynhaeaf llawer mwy i sôn am y greadigaeth (14); rhydd hyn hefyd gyfle i blant yr Ysgol Sul gymryd rhan mewn Oedfa Blant (8) a chael rhannu addoliad gyda gweddill y gynulleidfa.
- defnyddio a manteisio ar y trysor o emynau sydd gennym ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc sy'n sôn am Greadigaeth Duw (4).
- annog defnyddio bara a gwin organig yn y Cymun (6).

Diwinyddiaeth: gan gofio mai amcan diwinyddiaeth yw rhoi ac archwilio cofnod rhesymegol a threfnus o'r gred Gristnogol, wedi ei selio ar astudiaethau Beiblaidd, traddodiad a hanes yr eglwys, moeseg a chyd-destun yr Eglwys teimlai nifer (9) bod y Gweinidog yn cynnig arweiniad amlwg mewn materion amgylcheddol ond bod yna ddiffyg cefnogaeth (5) oddi wrth y gynulleidfa. Nodwyd (3) methiant aelodau'r Eglwys i weithredu penderfyniad y Cwrdd Eglwys i sicrhau bod Eglwys Minny Street yn Eglwys Werdd. Nodwyd (2) mai 'gwirion' oedd ceisio rhannu ceir ar un neu ddau Sul yn unig; dylid fod yn gwneud hyn pob Sul! Teimlwyd yn gyffredinol, os ydym fel eglwys o ddifrif ar faterion amgylcheddol, bod angen:

- sicrhau bod yna adnoddau amgylcheddol Cristnogol i law (17), er enghraifft sicrhau bod aelodau yn sylweddoli bod yna erthyglau ar faterion amgylcheddol yn *Y Tyst* a'r *Cristion* (3)
- cymryd rhan mewn digwyddiadau / astudiaethau amgylcheddol (8)
- cynnwys materion amgylcheddol yn holl rychwant gwaith a sylfaen dysg yr eglwys (21)

Gwaith gyda phlant: gwan oedd yr ymateb i'r adran yma . Teimlir bod yr eglwys yn gwneud peth gwaith amgylcheddol mewn gwasanaethau a dosbarthiadau Ysgol Sul, gyda mwy o ymatebion yn nodi bod angen datblygu'r agweddau hyn. Prin oedd y syniadau ond yn eu plith:

- defnyddio Byd Natur yng ngwersi Ysgol Sul – tyfu hedyn, nyth adar yng nghefn y capel (2)
- dysgu mwy o emynau amgylcheddol (7)
- ceisio cychwyn cynllun amgylcheddol sy'n cynnig cyfle i oedolion, pobl ifanc a phlant weithredu yn ystod y gofod 30 munud ar ôl yr oedfa gynnar (2)
- ail-gychwyn Oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul er mwyn sicrhau rhannu addoliad (18)

Gwaith ieuenctid: gwan oedd yr ymateb yma eto gyda nifer o ymatebion (14) yn nodi nad oedd ganddynt unrhyw brofiad na gwybodaeth am waith ieuenctid yr eglwys! *Dengys hyn rhywfaint o ddiffyg cyfathrebu yn ein mysg fel eglwys!* Teimlwyd, gan y rhai a wnaeth ymateb, bod angen datblygu holl agweddau amgylcheddol yr eglwys oddi mewn i'r gwaith hwn ond efallai canolbwyntio ar:

- ddatblygu deunydd gofal-am-y-cread i'w ddefnyddio mewn addoliad (7)
- trefnu digwyddiad cymunedol wedi ei sylfaenu ar yr amgylchedd (12)
- rhoi argymhellion i'r eglwys ar weithgarwch amgylcheddol (9)

Nodwyd (2) mai yn y Clwb Ieuenctid (Penwythnos Coleg yr Iwerydd) y datblygwyd y syniad o Eglwys Werdd. Nodwyd hefyd bod y genhedlaeth ifanc yn llawer mwy ymwybodol (4) o faterion amgylcheddol ac felly dylid rhoi cyfle i'r ieuenctid arwain yr eglwys ar y materion hyn.

Addysg pob-oed ac oedolion: yn ôl mwyafrif o'r ymatebion (38) dylid ystyried gwella'r agwedd hon a sicrhau:

- trefnu astudiaethau Beiblaidd amgylcheddol (11)
- gwahodd siaradwyr ar faterion amgylcheddol; nodwyd bod cyfle i hyn ddigwydd yn y Gymdeithas (6), yn y Clwb Ieuenctid (2) ac ar nosweithiau … *ac ati* (4).
- trefnu Grwp Grawys - nodwyd (4) bod Grwpiau Grawys llwyddiannus iawn eisoes yn bodoli o dan nawdd Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd ac efallai dylid annog canolbwyntio yn ystod un tymor ar yr amgylchedd.

Nodwyd, er hynny, er mor ddymunol byddai hyn mai gwan, yn gyffredinol, yw ymateb yr aelodaeth i ddigwyddiadau o'r fath a hefyd (3) bod rhaid sicrhau cyd-destun Cristnogol a diwinyddol i'r holl weithgarwch (hynny yw - bod yn wyrdd am ein bod yn Gristnogion, nid Cristnogion yn digwydd bod yn wyrdd!).

Eiddo eglwysig: cafwyd ymateb brwdfrydig i'r adran hon gyda 96% o'r rhai a wnaeth ymateb yn datgan barn! Teimlwyd y dylai'r eglwys sicrhau neu o leiaf ystyried:

- defnyddio trydan 'gwyrdd' (23)
- amseru cyfarfodydd fel na fydd gwastraffu ar wresogi (11) - nodwyd fel posibiliadau dim ond oedfa bore yn y gaeaf (2); oedfa bore a phrynhawn, neu brynhawn a hwyr yn y gaeaf (3); oedfa'r nos yn y Festri yn y gaeaf (4).
- trefnu archwiliad ynni (17)
- sicrhau nad yw ffenestri a drysau yn colli gwres (29)
- sicrhau deunydd inswleiddio priodol (31)
- cadw ffenestri'n lan i fanteisio ar olau naturiol (24)
- diffodd goleuadau (37) – nodwyd nad oes angen golau ar y llofft (7), na ddylid cynnau golau yn oedfaon y bore (12). Nodwyd pwysigrwydd rheolau diogelwch yn ystod y gaeaf – yng nghyd-destun gadael golau ymlaen adeg oedfaon yn y Festri rhag i neb syrthio ar y gris
- adnewyddu gwydr a fframiau ffenestri pan fo angen (4)
- gosod bylbiau ynni isel (27)
- gostwng tymheredd y gwres (24). Nodwyd y dylid gostwng y tymheredd rhyw 1°C (15) a throi'r gwres i ffwrdd yn gynt yn oedfa'r hwyr (8).
- sicrhau systemau fflysio deuol yn y toiledau (10)
- defnyddio adnoddau cynaliadwy neu wedi eu hail-gylchu (14). Gofynnwyd a ydyw'r *Aelod*, y cyhoeddiadau a'r crynodebau yn cael eu hargraffu ar bapur wedi ei ail-gylchu (7); nodwyd bod yr Adroddiad yn cael ei argraffu ar bapur felly (3). Gofynnwyd onid gwastrafflyd yw'r dogfennau cyhoeddiadau a chrynodebau bob Sul (3) - cymaint yn cael eu gadael ar ôl a neb amdanynt (oni ddylid mynd yn ôl i gyhoeddi'n llafar (2)?).

Rheolaeth eglwysig: nodwyd nifer o agweddau y dylid eu hystyried –

- cafwyd galwad glir am sicrhau priodoldeb polisi amgylcheddol y banc a ddefnyddiwn (36)
- sicrhau polisi buddsoddi moesegol (22)
- argymhellwyd y dylid defnyddio deunydd glanhau a phaent sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd (16), hyd yn oed os ydy hynny weithiau yn ddrytach (4)

- galwyd yma eto am sicrhau bod holl ddeunydd papur ac amlenni a ddefnyddir yn Eglwys Minny Street yn ddeunydd wedi ei ail-gylchu ac yn gynaliadwy (35)
- ni ddylid defnyddio platiau na chwpanau papur o gwbl (18 a 2, fel arfer!)

Teimlai llawer (22) ein bod wedi llwyddo fel eglwys yng nghyd-destun Masnach Deg. 'Roedd yna alw hefyd am ragor o gyfleusterau casglu eitemau i'w hail-gylchu (19) a threfnu ffair sbarion i godi arian ac ail-gylchu nwyddau (16).

Tir eglwysig: nifer o ymatebion yn sôn nad oedd hyn yn briodol iawn i Eglwys Minny Street gan nad oes gennym dir! Y bobl ifanc yn unfrydol eu barn (9) y dylid mynd ati i gynllunio rhyw ychydig ar y darn tir sydd yng nghefn y capel (ond nodir bod rhaid sicrhau agweddau diogelwch ac allanfa dan). Nifer o'r ymatebion yn nodi'r syniad o droi'r llecyn yn fan gweddi / myfyrio (8); nodwyd hefyd byddai'n briodol i drefnu ambell wasanaeth awyr agored (2).

Ffordd o fyw yr unigolyn: Yn ôl mwyafrif llethol (45) o'r ymatebion dylid:

- cyhoeddi cynghorion gwyrdd yn *Yr Aelod*; gofynnwyd (9) beth am gael colofn werdd reolaidd yn *Yr Aelod*?
- codi ymwybyddiaeth trwy bosteri neu wybodaeth o sefydliadau amgylcheddol (5)
- annog ail-gylchu (21)

Nodwyd (4) bod cegin newydd i'r eglwys yn gyfle euraid i sicrhau datblygu a monitro gweithredu gweithdrefnau amgylcheddol-gyfeillgar o'r cychwyn.

Ymestyn allan i'r gymuned: gwan oedd yr ymateb fan yma heblaw am:

- sefydlu dolenni gyda sefydliadau cymunedol gyda golwg ar rannu cenhadaeth amgylcheddol (18) ac yn arbennig (10) eglwysi'r Waun Ddyfal a dyfeisio cynllun amgylcheddol ar y cyd
- amlygu consyrn amgylcheddol i ddefnyddwyr yr adeilad a gofyn iddynt ar bob cyfle i ddefnyddio dulliau amgylcheddol o fyw (29)
- gwneud ein tystiolaeth amgylcheddol fel eglwys yn amlwg i'r gymuned (6)

Nodwyd (7) y dylid trefnu ambell grwp casglu sbwriel ar strydoedd cyfagos a hynny (3) ar ôl oedfa'r bore. Cynigiwyd (2) mai un ffordd o wneud hyn oedd sicrhau os bydd aelod yn gweithredu'n amgylcheddol yn y gymuned bod sylw yn cael ei roi i hyn yn yr eglwys. Nodwyd bod rhaid blaenoriaethu ac efallai mai priodol byddai datblygu cynllun amgylcheddol pum mlynedd.

Materion Tramor: derbyniwyd ymateb cefnogol tu hwnt (49) i barhau i weithio gyda Cymorth Cristnogol a Masnach Deg (48). Teimlwyd dylid gwneud mwy o ymdrech i fod yn rhan o weithgareddau:

- Wythnos Un Byd (26)
- asiantaethau amgylcheddol Cristnogol (9)
- gefeillio gydag eglwys dramor (5)

***

Ynghlwm wrth y sylwadau uchod 'roedd nifer (15) yn sôn am y ffaith bod aelodaeth Eglwys Minny Street yn wasgaredig ac efallai yn gwneud gweithredu'n amgylcheddol fel cymuned Gristnogol yn anodd. Nodwyd hefyd gan nifer (8) bod angen cofio am agweddau iechyd a diogelwch, ystod oedran yr aelodaeth a phwy sy'n mynd i gymryd y cyfrifoldeb o arwain a gweithredu - 'hawdd iawn rhoi croes mewn bocs!'. 'Roedd yna hefyd ambell sylw unigol gwerth nodi (e.e. Y Cylch Llyfrau i ddewis llyfr amgylcheddol yn achlysurol; oedfa yn yr Ardd Fotaneg).

Dianne Bartholomew
Cydlynydd Cylch Dinasyddiaeth
22-04-09